



 01437 770014



# 10 awr mewn Meithrinfa Cyfnod Sylfaen

Addysg ran-amser i blant tair oed

# Beth yw Meithrinfa Cyfnod Sylfaen?

Mae'r Feithrinfa Cyfnod Sylfaen yn darparu dechrau cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen yng Nghymru. Mae gan bob plentyn yng Nghymru hawl i addysg ran-amser, rad ac am ddim mewn Meithrinfa Cyfnod Sylfaen mewn lleoliad blynyddoedd cynnar, a hynny o'r tymor sy'n dilyn ei ben-blwydd yn dair oed a chyn iddo ddechrau mewn ysgol yn llawn-amser.

Mae Cyngor Sir Penfro yn cytuno i ddarparu'r cyllid a ddaw i law gan Lywodraeth Cymru i gynnig o leiaf 10 awr o addysg ran-amser wedi'i hariannu i bob plentyn sy'n gymwys, a hynny mewn lleoliad cymeradwy yn ystod y tymor ysgol. Gall rhieni ddewis derbyn yr hyn sy'n ddyledus i'r plentyn naill ai mewn **lleoliad a gynhelir** neu mewn **lleoliad nas cynhelir**.

**Lleoliad a gynhelir** – dosbarth meithrin mewn ysgol sy'n cynnig **10 awr neu ragor yr wythnos** mewn Meithrinfa Cyfnod Sylfaen wedi'i hariannu.

NEU

**Lleoliad nas cynhelir** – a allai fod yn feithrinfa ddydd breifat, grŵp chwarae neu Gylch Meithrin â statws cymeradwy sy'n cynnig **10 awr yr wythnos** mewn Meithrinfa Cyfnod Sylfaen wedi'i hariannu, a hynny am o leiaf dri diwrnod. Gellir cael mynediad at hyn mewn dau leoliad.

Mae pob lleoliad cymeradwy nas cynhelir sy'n cael y cyllid:

- Wedi'i gofrestru gyda'r awdurdod addysg lleol i ddarparu'r Feithrinfa Cyfnod Sylfaen ran-amser
- Yn cael ei Arolygu gan AGC ac ESTYN yn rheolaidd
- Yn cael ei gefnogi gan athro cymwysedig yn rheolaidd
- Yn cynnwys staff sydd wedi'u hyfforddi'n briodol
- Yn darparu Cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen (cwricwlwm statudol ar gyfer pob plentyn tair i saith oed yng Nghymru)



# Ble y gallaf gael mynediad at Feithrinfa Cyfnod Sylfaen yn Sir Benfro?

Isod, ceir rhestr o'r holl leoliadau cymeradwy **nas cynhelir** sy'n darparu Meithrinfa Cyfnod Sylfaen yn Sir Benfro:


- **Meithrinfa Bright Start** – Coleg Sir Benfro, Hwlfordd, SA61 1SZ
- **Grŵp Chwarae Aberllydan** – Neuadd y Pentref, Marine Road, Aberllydan, SA62 3JS
- **Grŵp Chwarae Camros a'r Garn** – Canolfan Gymunedol Pelcomb, Hwlfordd, SA62 6AA
- **Cylch Meithrin Abergwaun** – Canolfan Hamdden Abergwaun, Abergwaun, SA65 9DT
- **Cylch Meithrin Arberth** – Canolfan Gymunedol Bloomfield, Heol Redstone, Arberth, SA67 7EP
- **Cylch Meithrin Bwlchgyroes** – Yr Hen Ysgol, Neuadd Bwlchgyroes, SA35 0DP
- **Cylch Meithrin Cas-mael** – Ysgol Cas-mael, Hwlfordd, SA62 5RL
- **Cylch Meithrin Crymych** – Caban, Ysgol y Frenni, SA41 3QH
- **Cylch Meithrin Eglwysrwrw** – Yr Hen Ysgol, Eglwysrwrw, SA41 3SN
- **Cylch Meithrin Hermon** – Canolfan Hermon, Hermon, SA36 0DT
- **Cylch Meithrin Maenclochog** – Neuadd Gymunedol, Maenclochog, SA66 7LB
- **Gofal Plant Arch Noa** – Lôn Tabernacl, Arberth, SA67 7DE
- **Playdays Abergwaun** – Adeilad Crowne, Lôn Brodog, Abergwaun, SA65 9NT
- **Redhill Montessori** – Y Garth, Heol Dewi Sant, Hwlfordd SA61 2UR
- **Grŵp Chwarae Spittal** – Neuadd yr Eglwys, Y Grîn, Spittal, SA62 5QT
- **Stepping Stones** – 18A Bush Row, Hwlfordd SA61 1RJ
- **Kindergarten Tabernacl** – Ysgoldy Eglwys Tabernacl, 93 Y Stryd Fawr, Sir Benfro, SA71 4DE
- **Grŵp Chwarae Tafarn-sbeit** – Neuadd Bentref Tafarn-sbeit, Tafarn-sbeit, SA34 0NL
- **Grŵp Chwarae Templetots** – Ysgol Tredemel, Tredemel, SA67 8RS

**Nodyn: Siaradwch â lleoliad y Feithrinfa Cyfnod Sylfaen o'ch dewis a chytuno ar le i'ch plentyn cyn i chi gyflwyno cais. Gall lle wedi'i ariannu gael ei ddyrannu mewn dau leoliad.**



# Sut y bydd fy mhlentyn yn elwa ar fynychu Meithrinfa Cyfnod Sylfaen?

Er nad yw'n statudol bod eich plentyn yn mynychu Meithrinfa Cyfnod Sylfaen cyn cael lle llawn-amser mewn ysgol, mae hwn yn gyfnod pwysig iawn ym mywyd eich plentyn gan ei fod yn gosod y sylfaen ar gyfer dysgu yn y dyfodol, ac mae'n rhan o'r cwricwlwm cyfredol a chwricwlwm y dyfodol. Mae Meithrinfa Cyfnod Sylfaen yn derm cyffredinol a ddefnyddir i ddisgrifio'r cyfnod y bydd eich plentyn yn ei dreulio yn y Cyfnod Sylfaen pan fydd yn dair ac yn bedair oed.



# Sut mae gwneud cais ar gyfer Meithrinfa Cyfnod Sylfaen?

Bydd angen i chi siarad â'r darparwr gofal plant yr ydych yn ei ddefnyddio ar hyn o bryd (neu yr ydych yn bwriadu ei ddefnyddio) ar gyfer Meithrinfa Cyfnod Sylfaen a ariennir i'ch plentyn.

Bydd y darparwr gofal plant yn gwirio pa bryd y bydd eich plentyn yn gymwys. Os yw eich plentyn yn gymwys, gofynnir i chi lenwi ffurflen gais ar-lein i rieni:

## Sut y mae hyn yn gweithio?

**1. Siaradwch â lleoliad y Feithrinfa Cyfnod Sylfaen o'ch dewis er mwyn cytuno ar le i'ch plentyn**




**2. Llenwch y cais ar-lein yma**

Er y bydd ymgeiswyr yn llofnodi ymwadiad i gadarnhau eu bod yn bodloni'r meini prawf gofynnol ar gyfer cymhwyster, disgwylir bod pob cais yn cael ei gefnogi gan dystiolaeth o dyddiad geni y plentyn (naill ai tystysgrif geni / pasbort / cofnodion iechyd meddygol).



**3. Byddwch yn derbyn diweddariadau rheolaidd gan Gyngor Sir Penfro (trwy Fy Nghyfrif) ar hynt eich cais**



**4. Bydd cyllid yn cael ei ryddhau i'r lleoliad (au) o'ch dewis ar ôl i'r cais gael ei gymeradwyo.**



# Pryd y gall fy mhlentyn gael mynediad i Feithrinfa Cyfnod Sylfaen?

Dyddiad Geni'r Plentyn	Pryd y gall fy mhlentyn gael mynediad i Feithrinfa Cyfnod Sylfaen?
1 Medi 2017 – 31 Rhagfyr 2017	Gwanwyn 2021
1 Ionawr 2018 – 31 Mawrth 2018	Haf 2021
1 Ebrill 2018 – 31 Awst 2018	Hydref 2021
1 Medi 2018 – 31 Rhagfyr 2018	Gwanwyn 2022

**Nodwch: Rhaid cyflwyno ceisiadau cyn pen 10 diwrnod ar ôl dechrau pob tymor academaidd. Ystyrir amgylchiadau eithriadol fesul unigolyn.**

# Cynnig Gofal Plant Cymru



Yn ychwanegol at yr hawl i 10 awr yr wythnos o addysg blynyddoedd cynnar rad ac am ddim (sydd ar gael i bob plentyn), efallai y byddwch hefyd yn gallu elwa ar 20 awr yn rhagor o ofal plant wedi'i ariannu. I gael rhagor o wybodaeth am y Cynnig Gofal Plant, cysylltwch â Chyngor Sir Penfro:



<https://www.pembrokeshire.gov.uk/the-childcare-offer-wales>.



01437 776194



Ffion.jones@pembrokeshire.gov.uk